Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 32 Haf 2015



*Annwyl ffrindiau,*

Diau fod gan bawb ohonom ryw hoffter arbennig o dymor yr haf. Bu'n ysbrydoliaeth i fwy nag un bardd a llenor dros y blynyddoedd. 'Ar ryw brynhawngwaith teg o ha' hirfelyn tesog' y cymerodd y Bardd Cwsg yn ei weledigaeth hynt i ben un o fynyddoedd Cymru. Canodd y bardd R. Williams Parry awdl enwog yn clodfori'r tymor, a champwaith o gân yw honno sy'n deisyf, 'O na byddai'n haf o hyd'.

Ie, yr haf yw'r adeg i ymlacio a hamddena rhyw ychydig, i ymweld ag ambell ŵyl fel yr Eisteddfod a'r Sioe, i grwydro yma a thraw ar ambell wibdaith, i fynd i ffwrdd ar wyliau, i ddarllen rhyw lyfr neu'i gilydd ac anghofio am bawb a phopeth. Ydy, mae'r haf yn ein galw i ryddhau ein hunain o hualau'r gaeaf ac i lonyddu a gorffwyso. Wrth gwrs, nid yw'r tymor yn nefoedd i gyd. Erys y gofalon gwaith a'r gorchwylion beunyddiol, ond rhywsut nid yw galwadau o'r fath yn ymddangos cyn bwysiced yng nghanol dyddiau hirion yr haf ag ydynt yn llymder misoedd y gaeaf.

Oes gan Dduw air i'w ddweud wrthym yn y tymor hamddenol hwn? Mae'n rhaid bod. Yn ei gerdd 'Cwm Tawelwch', mae'r awdur Gwilym R. Jones yn darlunio dyn yn chwilio'n ofer am lonyddwch i'w enaid. Er bod gan ddyn amser i orffwyso ac ymlacio, mae blinder y byd hwn yn mynnu gadael ei ôl arno. A dyma gwestiwn y bardd: 'I ble yr ei di, fab y fföedigaeth, a'th gar salŵn yn hymian ar y rhiw, a lludded yn dy lygaid?' Gwyddom i gyd am y blinder affwysol hwn sy'n medru gwanychu a difa'r enaid. Ond a oes yna feddyginiaeth i'w chael? Mae awdur Salm 131 yn sôn fel y cafodd hyd i dawelwch a distawrwydd i'w enaid. Gallwn ddyfalu fod hwn yn ddyn prysur, yn byw ei fywyd i'r eithaf ac ar fynd yn ddiddiwedd. Mae'n ymddangos nad oedd ganddo fawr o amser i ymlonyddu a gorffwyso. Ond daeth ato'i hun, gan sylweddoli mai yn Nuw yn unig yr oedd ei orffwysfa dragwyddol. Meddai, 'Nid wyf yn ymboeni am bethau rhy fawr, nac am bethau rhy ryfeddol i mi. Ond yr wyf wedi tawelu a distewi fy enaid, fel plentyn ar fron ei fam; fel plentyn y mae fy enaid.' (Salm 131:1–2). Y fam yn unig a all fodloni'r baban sy'n sugno ar ei bron, a dim ond Duw a all fodloni'r dyhead yn yr enaid dynol.

Mae yna ddyhead ynom i gyd i ‘chwilio am y Cwm, tu draw i’r cymoedd, am Gwm Tawelwch’, ‘rhyw fowlen fach o ddyffryn … lle cawn yno sgwrs â’n henaid’. Neges fawr y Beibl yw bod y tawelwch hwnnw i’w gael yn Nuw, yr Un sy’n abl i ‘roi nerth i’r diffygiol’ a ‘chryfder i’r di-rym’. Wrth i ni dreulio’n hamser yn yr awyr agored yr haf hwn, yn eistedd ar graig neu dywod neu’n edrych allan ar lyn neu fynydd, beth am gymryd munud neu ddwy i blygu o flaen y Creawdwr mewn myfyrdod a gweddi ac ymlonyddu ein heneidiau arno? ‘Disgwyl yn dawel am yr Arglwydd, aros yn amyneddgar amdano.’ (Salm 37:7) ‘Yn wir, yn Nuw yr ymdawela fy enaid; oddi wrtho ef y daw fy ngwaredigaeth.’ (Salm 62:1).

Mewn byd sy’n llawn sŵn a phrysurdeb diddiwedd, da o beth fyddai i ni ddal ar eiriau’r bardd Japaneaidd Toki Miyashina, yn ei addasiad o’r drydedd salm ar hugain:

Yr Arglwydd yw fy amserogydd, ni ruthraf;
efe a wna i mi aros a gorffwys am gyfnodau tawel,
efe a rydd imi ddelweddau o lonyddwch,
sy’n adfer fy serenedd.
Efe a’m harwain ar hyd llwybr effeithiolrwydd,
trwy dawelwch meddwl;
a’i arweiniad ef sydd dangnefedd.
Ie, er bod gennyf lawer o bethau i’w cyflawni bob dydd
ni phoenaf, oherwydd y mae ei bresenoldeb ef yma,
bydd ei ddiamserogrwydd, a’i holl-bwysigrwydd yn fy nghadw i
mewn cydbwysedd.
Efe a arlwya adnewyddiad ac adfywiad yng nghanol gweithgareddau,
trwy eneinio fy meddwl ag olew ei lonyddwch:
fy ffiol o ynni llawen sy’n gorlifo.
Cytgord ac effeithiolrwydd yn ddiau a fyddant yn ffrwyth fy oriau
a cherddaf ar gyflymder fy Arglwydd
a phreswylio yn ei dŷ ef yn dragywydd.

(*Gweddïau Enwog*, gol. Cynthia Davies)

Haf tawel a dymunol i chi gyd.

Yr eiddoch yng Nghrist

*Wyn Morris* (Bugail)

# Tudalen y Plant




Ydych chi wedi gweld y llyfr newydd, lliwgar yma? Mae'n llawn o storïau, posau a gweithgareddau am fywyd Iesu – ffordd ddifyr a diddorol o ddysgu am Iesu a'i waith. Dyma un o'r posau i chi ei ddatrys.

Yn y golofn gyntaf, mae enwau rhai pobl wnaeth gwrdd ag Iesu – ac fe newidiodd hynny eu bywydau yn llwyr. Tynnwch linell i gysylltu enwau'r bobl hyn â'r brawddegau yn y golofn ar y dde.



| | |
|---|---|
| 1 Sacheus | a Roedd e'n gallu cerdded eto. |
| 2 Bartimeus | b Roedd e'n gallu clywed eto. |
| 3 Jairus | c Daeth yn un o'r disgyblion. |
| 4 Martha | ch Cafodd ei brawd ei godi o farw'n fyw. |
| 5 Deg o ddynion | d Daeth yn gasglwr trethi gonest a hael. |
| 6 Pedr | dd Roedd e'n gallu gweld eto. |
| 7 Y dyn wedi'i barlysu | e Cawson nhw eu hiachău o'r gwahanglwyf. |
| 8 Y dyn byddar | f Gwelodd ef ei ferch yn cael ei hiachău. |

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Gorffennaf**.

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Llongyfarchiadau i Megan Fflur Lewis, Ysgol Sul Penllwyn, enillydd Cwis y Pasg yn y rhifyn diwethaf, a diolch i'r 12 ohonoch roddodd gynnig ar y dasg. Daliwch ati!

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c*

| | |
|---|---|
| 6–8 Gorffennaf | Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru<br>Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth |
| 12 Gorffennaf | Oedfa Haf yr Ofalaeth<br>Capel Rehoboth, Taliesin, am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at Apêl Ysbyty Shillong |
| 10 Medi | Cyfarfod Blynyddol CIC<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 19 Medi | Cynhadledd Camu: Pwy, ni? Ia, ni!<br>Coleg y Bala, 10 tan 3.30 o'r gloch<br>Am ffurflen gofrestru, ffoniwch 01678 520565<br>neu ebostiwch: colegybala@ebcpcw.org.uk |
| 27 Medi | Oedfa Menter Gobaith<br>Capel Bethel, Tal-y-bont, am 10 o'r gloch |
| 26 Hydref | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 pm |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

## CIC
## Clwb Ieuenctid Cristnogol

Mae'r tymor yma wedi bod yn llawn hwyl gyda Noson Gemau, trip i'r brifysgol i'r wal ddringo, ond rwyf yn credu mai uchafbwynt y tymor oedd y 4ydd o Fehefin, lle daeth tri myfyriwr Blwyddyn Gap o Goleg y Bala i wneud blas sesiwn o beth fydd i'w ddisgwyl ar y Cwrs Ieuenctid yr haf yma yng Ngholeg y Bala. Roedd CIC yn llawn bwrlwm gyda'r plant yn gwneud sialensiau gwahanol a thrio torri 'world records' gwahanol fel: faint o Sticky Notes rydych chi'n gallu eu sticio ar eich wyneb mewn munud, pwy sy'n gallu dal y mwyaf o orenau gyda mwgwd dros eu llygaid, a sialensiau gwahanol fel y gêm 'Junk in your trunk', lle roedd un o'r ieuenctid wedi clymu bocs *tissues* llawn peli ping pong rownd ei chanol, wedyn dawnsio a thrio cael y peli allan heb ddefnyddio'i dwylo.

Ar ôl y gemau rhannodd Joseff y stori am Iesu yn codi Lasarus yn ôl yn fyw, a bod Iesu ddim jest wedi deud ei fod e am wneud pethau mawr ond ei fod e wedi dangos ei fod e'n gallu gwneud pethau mawr!

Byddwn yn gorffen y tymor gyda thaith gerdded ar 16 Gorffennaf. Croeso mawr i chi ymuno gyda'r ieuenctid.

Mae'r tymor yma wedi bod yn llawn hwyl ac rydyn ni'n wir yn edrych ymlaen i'r tymor nesa. Dyma fras raglen o be i'w ddisgwyl.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Zoe Jones, Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid (zoejones34@gmail.com neu 01970 611510)

| **DYDDIAD** | **GWEITHGAREDD** |
|---|---|
| 17 Medi | Noson Agoriadol |
| 1 Hydref | Bad Achub Aberystwyth |
| 15 Hydref | Gweilch Dyfi gydag Emyr Evans |
| 5 Tachwedd | Noson Tân Gwyllt<br>(Bow Street neu Aberystwyth) |
| 19 Tachwedd | Sesiwn ddrama gyda Catrin Mai |
| 3 Rhagfyr | Noson *Zorbes* yn Neuadd Rhydypennau |
| 17 Rhagfyr | Gweithgareddau Nadoligaidd |
| 21 Rhagfyr | Canu Carolau |

Cynhelir y gweithgareddau gan amlaf yn festri'r Garn, rhwng 7 ac 8.30 o'r gloch, a byddem yn falch o groesawu pobl ifainc rhwng 10 a 14 mlwydd oed o eglwysi'r ofalaeth i'r Clwb.

## *Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion, Mai 2015*




Cyflwyno stori Sacheus




Plant ysgolion Sul Gogledd Ceredigion yn mwynhau eu hunain yn y Gymanfa

## *Araith Cymanfa Ganu'r Oedolion, Mai 2015 (Alan Wynne Jones)*

Ga' i ddechrau drwy ddiolch i Bwyllgor Eglwys y Garn am y gwahoddiad i fod yn llywydd heno. Rwyf yn ei hystyried yn fraint o gofio mai yng Nghapel y Garn, gyda'i draddodiad cerddorol cyfoethog, mae'r Gymanfa'n cael ei chynnal.

Dwi am osod tasg i chi ar y cychwyn. Mae yna 11 o wahanol gyfansoddwyr wedi'u cynrychioli yn adran yr Oedolion o'r *Detholiad* eleni. Maen nhw'n rhannu i ddwy garfan sef, yn gyntaf y cerddorion proffesiynol, hynny yw, roeddynt yn ennill eu bywoliaeth trwy gerddoriaeth, ac yn ail, y rhai oedd yn dilyn galwedigaethau eraill ond lle roedd/mae cerddoriaeth yn neu wedi chwarae rhan amlwg yn eu bywydau, e.e. cyfansoddi, perfformio mewn rhyw ffordd neu'i gilydd – yn gyfeilyddion, organyddion neu'n unawdwyr lleisiol, yn arwain neu feirniadu ac yn y blaen. Faint sy'n perthyn i'r ddwy garfan? Rhywbeth i chi ei wneud os dach chi ddim am wrando arnaf fi!

Fe gyfeiriais gynnau at draddodiad cerddorol cyfoethog Capel y Garn. Er bod sawl person wedi cyfrannu'n helaeth at weithgarwch cerddorol y capel, dwi'n siŵr y cytunwch fod dau enw'n sefyll allan a bod un yn perthyn i'r garfan gyntaf a'r llall i'r ail. Pwy ydyn nhw? Wel, J. T. Rees, a William Llewelyn Edwards.

Dyn dŵad oedd J. T. Rees. Fe'i ganed yn Llwynbedw, Cwmgïedd, yng Nghwm Tawe yn 1857. Yn naw oed aeth i weithio dan ddaear gyda'i dad ond yn fuan gwelwyd ei fod yn meddu ar ddawn gerddorol anghyffredin. Tra oedd yn cael gwersi sol-ffa gan D. W. Lewis, Brynaman, ar ddiwedd yr 1870au casglwyd arian yng nghymdogaeth Cwmaman, lle roedd yn byw, i'w alluogi i ddod i Goleg y Brifysgol yma yn Aberystwyth i astudio dan yr Athro Joseph Parry. Beth bynnag, yn ôl Nerys Ann Jones, yn ei llyfr hynod werthfawr ar hanes Capel y Garn, aeth yr arian yn brin yn ystod ei ail flwyddyn a gwahoddwyd ef i Ben-y- garn yn 'athro a chyfarwyddwr cerdd', i hyfforddi côr y capel a dysgu dosbarthiadau sol-ffa y plant a'r oedolion. Ar ôl treulio blwyddyn yn athro cerdd ac arweinydd côr yn Emporia, Kansas, yn 1882 dychwelodd i ardal Bow Street. Cafodd waith fel athro cerdd i oedolion yn Aberystwyth, cyn derbyn swydd fel athro cerdd rhan amser yn Ysgol Sir Tregaron. Hyn, yn ogystal â bod yn arweinydd y gân yn y Garn.

Er bod organ yn y capel yn ystod cynnar y cyfnod hwn, ni ddefnyddid mohoni heblaw yn yr Ysgol Gân am fod rhai o'r blaenoriaid yn gwrthwynebu defnyddio offeryn yn y gwasanaethau. Un Sul, fodd bynnag, roedd Dr Thomas Charles Edwards, Prifathro Coleg y Brifysgol Aberystwyth, yn pregethu yn y Garn. Sylwodd nad oedd yr organ yn cael ei defnyddio a gofynnodd i J. T. Rees beth oedd y rheswm am hynny. Dywedodd yntau am y gwrthwynebiad gan rai o'r blaenoriaid, ac yn ôl y sôn, ateb y Prifathro oedd: 'Machgen i, rwy'n disgwyl eich clywed yn canu'r offeryn yna heno.' Felly y bu, ac ni chlywyd mwy am wrthwynebiad y blaenoriaid.

Buan iawn y daeth J. T. Rees yn fawr ei ddylanwad yng ngogledd Ceredigion. Bu'n dysgu llawer o gorau yn ogystal ag un y Garn, a mawr oedd y galw amdano fel beirniad eisteddfodau ac arweinydd cymanfaoedd ledled Cymru. Bu'n gwasanaethu yma am dros drigain mlynedd.

Cofir amdano heddiw yn bennaf fel cyfansoddwr tonau, anthemau a thonau i blant. Rhaid cofio mai ar gyfer côr, cynulleidfa ac aelodau Ysgol Sul y Garn y cyfansoddodd lawer ohonynt. Mae wyres a gor-wyres iddo, sef Morfydd a Gwenan, yn dal yn aelodau yma yn y Garn, yn ogystal â nifer o ddisgyblion a fynychodd ei ddosbarthiadau sol-ffa.

Olynwyd J. T. Rees a Tom Jones, Felin Gyffin (y codwr canu am flynyddoedd), gan ddau frawd, William Llewelyn ac Alfred Edwards, meibion y Ruel Uchaf. Gan fod Alfred yn meddu ar lais bariton cyfoethog penodwyd ef yn godwr canu, a bu ei frawd yn dysgu'r Ysgol Gân. Datblygodd William Llewelyn yn arweinydd medrus ar gôr a chymanfa, ac enillodd wobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol am ei donau. Yn ystod ei gyfnod fel arweinydd a hyfforddwr Côr y Garn darlledwyd nifer o raglenni *Caniadaeth y Cysegr* a *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* o'r capel. Nawr, yn wahanol i J. T. Rees, treuliodd William Llewelyn Edwards ei oes yn ffermio. Roedd yn gerddor medrus a chyhoeddodd ddau gasgliad gwerthfawr o emyn donau.

Mae J. T. Rees felly'n cwympo i'r garfan gyntaf o gyfansoddwyr a William Llewelyn i'r ail garfan. Mae gan J. T. Rees naw o donau (yn cynnwys pump o drefniannau) a William Llewelyn saith o donau yn *Caneuon Ffydd*.

Yn ôl Nerys Ann, mae'n debygol mai yn 1872 y cynhaliwyd y Gymanfa Ganu gyntaf yn y Garn. Dyma ni yma'n bresennol mewn cymanfa arall yn 2015. O ddilyn y drefn bresennol fe ddylai'r gymanfa ddychwelyd yma yn y flwyddyn 2020, hynny yw, ar y Sul ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf.

Ydach chi'n meddwl y daw hi yma ymhen pum mlynedd? Fydd Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion yn dal i gael ei chynnal? O edrych o gwmpas, dwi'n gweld nifer o ffyddloniaid sy'n mynychu'r rihyrsals yn rheolaidd bob blwyddyn, a dwi a Dai Griffiths ac unigolion eraill sydd wedi bod yn cymryd yr ymarferion dros y blynyddoedd yn hynod ddiolchgar i chi am eich ffyddlondeb. Yn anffodus, mae'n gwalltiau ni'n troi'n wynnach ac, i sawl un, yn deneuach, ac mae'r niferoedd yn crebachu. Rydym ni'n mynd yn hŷn ac, yn gyffredinol, does gan y genhedlaeth sy'n ein dilyn fawr o ddiddordeb mewn Cymanfa Ganu nag arferion cymdeithasol eraill rydym ni wedi eu hystyried yn werthfawr. Beth am y dyfodol? Beth yw'r rhagolygon y cynhelir cymanfa yma ymhen pum mlynedd?

Yn y blynyddoedd a fu gallech warantu, pryd bynnag y byddai criw o Gymry yn ymgynnull yn rhywle yn gymdeithasol, boed mewn tŷ tafarn, cymanfa ganu myfyrwyr neu gêm rygbi ryngwladol, fe fyddai yna ganu emynau, poblogaidd wrth reswm, a hynny fel arfer mewn pedwar llais. Ydi hynny'n digwydd heddiw? Wn i ddim.

Yn anffodus, mae'r arfer o fynychu gwasanaethau a chyfarfodydd eraill yn ymwneud â chapel ac eglwys, gan gynnwys y Gymanfa Ganu, wedi edwino'n arw, yn gyffredinol, ac yn enwedig ymysg yr ifanc a'r canol oed, dros y pum mlynedd a'r hugain diwethaf. Mae bywyd mor brysur y dyddiau hyn a galwadau ar amser pobl o wahanol gyfeiriadau'n enfawr. Sut ddaethom ni i ben tra oeddem ni'n magu teuluoedd ifanc, dwi ddim yn gwybod. Mae cymdeithas wedi newid. Mae blaenoriaethau pobl wedi newid. Rhaid cofio, wrth gwrs, mai rhywbeth gwirfoddol yw crefydd a bod nifer go sylweddol o oedolion yn gallu byw hebddo neu o leia'n hepgor dod i'r capel. Nid dyma'r lle i drafod y rhesymau am hyn ond be allwn ni ei wneud ynghylch y sefyllfa? Mae'n amlwg nad yw'r drefn bresennol yn apelio at y bobl hyn.

Un ffaith galonogol am y cyfnod hwn yw bod rhyw fath o ddadeni yn cymryd lle a bod canu mewn côr yn boblogaidd unwaith yn rhagor. Efallai mai un posibilrwydd fyddai gwahodd rhai o'r corau yma i roi eitem neu ddwy yn y gymanfa – yn lle araith y llywydd, efallai! Gwahodd arweinydd y côr i arwain y gymanfa o bosib. Byddem yn disgwyl i aelodau'r côr ganu'r emynau, wrth gwrs, gan obeithio un ai eu bod yn eu gwybod yn barod neu eu bod yn dda am ddarllen ar yr olwg gyntaf.

Ydi hi'n amser i ni ystyried rhentu corau i ddod i'n cymanfaoedd a thalu iddynt fel mae cwmni Teledu Avanti'n ei wneud ar gyfer *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*?

Efallai y dylid cynnwys ambell dôn/alaw mewn arddull mwy cyfoes (dwi ddim yn hoff o'r term modern) i'w canu mewn unsain yn arddull Eglwys Loegr.

Ond, o ddifrif, beth dach chi'n ei feddwl? Un ffaith rwy'n sicr ohoni. Mae traddodiad y Gymanfa Ganu yn rhan rhy werthfawr o'n treftadaeth fel Cymry i'w golli. Mae fel petai rhywbeth arall unigryw Cymreig yn cael ei erydu a dim byd o sylwedd yn dod i gymryd ei le. Rhaid darbwyllo'r cenedlaethau iau (na ni) o hyn.

Diolch am wrando.

## *Pen-llwyn*

**Cyfarfod Cenhadol y Chwiorydd – Dosbarth Gogledd Ceredigion**

Cynhaliwyd y cyfarfod uchod yng Nghapel Penllwyn brynhawn Sadwrn, 18 Ebrill, dan lywyddiaeth Miss Eirlys Morgan. Roedd y rhannau arweiniol yng ngofal eglwysi Llwyn-y-groes, Dyffryn a Phenllwyn. Croesawodd y Llywydd y wraig wadd, sef Mrs Sarah Morris o Gaerdydd, a braf oedd cael cwmni Zoe, Gweithiwr Plant ac Ieuenctid, yn bresennol hefyd. Gan mai apêl Llywydd y Gymanfa Gyffredinol eleni yw cynorthwyo'n ariannol Ysbyty Shillong yn yr India, cawsom sleidiau ar hanes yr ysbyty a hefyd ddod i wybod am y cenhadon cynnar a'u gwaith aroesol yn sefydlu'r ysbyty, ynghyd â'r dylanwad a gaiff yn y gymuned heddiw a'r gofal arbennig i'r trigolion.

Gan fod yr ysbyty dan adain Eglwys Bresbyteraidd Cymru, bydd gweinidogion ac eraill yn ymweld â'r wlad ac â'r ysbyty hwn yn benodol o bryd i'w gilydd, yn eu plith ein gweinidog ni, y Parch Wyn Morris, a hefyd y Parch a Mrs John Tudno Williams. Maent i gyd yn dyst i'r gwaith arbennig sy'n digwydd wrth redeg yr ysbyty o ddydd i ddydd ac yn tanlinellu'r angen dybryd am foderneiddio'r adeilad hanesyddol yma er sicrhau gwell darpariaeth feddygol.

Cawsom hefyd glywed gan Sarah am ei hymdrechion hi a Zoe i genhadu yma yng Nghymru a'r gwaith da a wneir gyda phlant a phobl ieuanc ledled ein gwlad. Cyfeiriodd yn benodol at y gymuned yn Shiloh, Ystrad Mynach, a'r gwaith yn Abertawe yn ogystal. Tanlinellwyd enghreifftiau o waith gwerthfawr Cristnogion sydd erbyn hyn yn halen yn y gymdeithas ac yn yr eglwys. Terfynwyd drwy i Sarah roi her i bob un ohonom i holi ein hunain am yr hyn a wnawn ni yn ein cymuned ein hunain ac a ydym ni yn halen ai peidio yn y llecyn tawel yma o Gymru. Bydded i ddeisyfiad yr emynydd fod yn ddeisyfiad i bob un ohonom ninnau: 'Gwna ni fel halen trwy dy ras / Yn wyn, yn beraidd iawn ei flas, / Yn foddion yn dy law o hyd / I dynnu'r adflas sy ar y byd.' Gwnaed casgliad yn ystod y gwasanaeth at Apêl Ysbyty Shillong, ac yna cafwyd paned yn y festri wrth gymdeithasu ar ddiwedd y cyfarfod.

Yn y llun gyferbyn, gwelir plant ysgol Sul Penllwyn
yn dathlu pen-blwydd arbennig Mrs Anne Davies

Dydd Sul, 3 Mai, oedd Sul y Teulu dan ofal ein Gweinidog, y Parch Wyn Rhys Morris. Plant yr ysgol Sul oedd yng ngofal y rhannau arweiniol, gan gynnwys emynau, darlleniadau, sgwrs a nifer o weddïau pwrpasol. Thema'r gwasanaeth oedd Dameg yr Heuwr, ac fe gafodd y plant y cyfle i enwi'r pedwar math gwahanol o dir y syrthiodd yr had arnynt. Gan mai stori ddaearol ac iddi ystyr nefol yw dameg, cawsant esboniad ac eglurhad buddiol dros ben, a chredaf y byddant yn cofio'r hanes am flynyddoedd i ddod.

Gwobrwywyd Nannon Jones am ennill tasg *Gair o'r Garn* y tymor diwethaf ac yn dilyn cafodd y plant gyfle i wneud gwaith yn seiliedig ar ddameg yr heuwr yn y festri, tra bu'r Parch Wyn Morris yn annerch yr oedolion. Gweddïwn ar i Dduw gymhwyso'r ddameg i'n bywydau ninnau bob un fel y bydd clywed y Gair yn dod yn real a gwerthfawr unwaith eto, yn yr oes faterol yma y cawn ein hunain ynddi.

**Pen-blwydd arbennig**

Ar 4 Mehefin dathlodd un o'n aelodau hynaf a ffyddlonaf ei phen-blwydd yn ddeg a phedwar ugain mlwydd oed. Cyfeirio rydym at Mrs Anne Davies, Maencrannog. Bu hi (ac y mae) a'i diweddar briod, Mr Martin Davies, yn bileri ein cymdeithas ni yma ym Mhenllwyn ers dros drigain mlynedd. Pur anaml y bydd y foneddiges hon yn colli oedfa neu ddosbarth ysgol Sul ar y Sul a chaiff fendith yn wythnosol drwy fynychu'r dosbarth beiblaidd dan ofal ei Gweinidog. Dymunwn fel eglwys ei llongyfarch yn wresog a dymuno Duw yn rhwydd iddi am flynyddoedd i ddod.



## *Capel y Garn*

Llongyfarchiadau calonnog i:

Rhian Jones-Steele ar enedigaeth ei hŵyr cyntaf, Charlie Lewis, mab bach Nia a Huw, a brawd i Seren;

Margaret ac Alun Rees ar enedigaeth wyres, Heledd Anwen, merch fach Euryl a Bethan, a chwaer i Llew;

Llinos Dafis ar gael ei hurddo i'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau;

Elystan ar dderbyn gradd anrhydedd Doethur yn y Gyfraith Sifil gan Brifysgol Cymru am wasanaeth i Gymru ac i'r Gyfraith;

Kathleen Lewis, a dderbyniodd gydnabyddiaeth am ei gwaith gwirfoddol gyda Chartref Tregerddan.



Y brawd 'mawr', y Parch W. J. Edwards, yn cyflwyno'r brawd 'bach', Hywel Wyn Edwards, yng Nghymdeithas Lenyddol y Garn. Cafwyd noson ddifyr iawn yn gwrando ar Hywel Wyn yn rhannu nifer o atgofion am ei fagwraeth yn yr ardal a'i gyfnod prysur ac amrywiol fel Trefnydd yr Eisteddfod Genedlaethol am ugain mlynedd.

Llongyfarchiadau calonnog i Hywel Wyn, a fydd yn cael ei urddo yn aelod o'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol 2015.

## Gorffennaf

*Blaenor y Mis: Dewi G. Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Eddie T. Jenkins / Alan Wynne Jones*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

**5** Dr Rhidian Griffiths

**12** Oedfa Haf yr Ofalaeth dan arweiniad y Bugail
Capel Rehoboth, Taliesin, am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at Apêl Ysbyty Shillong

**19** Y Bugail
Oedfa gymun yn y bore

**26** Y Parchedig Elfed ap Nefydd Roberts

29 Pwyllgor Eglwys y Garn am 7 o'r gloch

## Awst

*Blaenor y Mis: D. Elystan Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G. Hughes / Marian B. Hughes*

**2** Y Parchedig Richard H. Lewis
Cydaddoli yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

**9** Miss Beti Griffiths
Cydaddoli yn y Garn am 10 o'r gloch

**16** Y Parchedig Richard H. Lewis
Cydaddoli yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

**23** Mr Lyndon Lloyd
Cydaddoli yn y Garn am 10 o'r gloch

**30** Y Parchedig Richard H. Lewis
Cydaddoli yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

DS Ni fydd oedfa am 5 o'r gloch yn y Garn yn ystod mis Awst

**Medi**

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: D. Elystan Morgan / Erddyn James*

**6** Parchedig Eric Greene
Noddfa'n cydaddoli yn y Garn

10 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 2 o'r gloch

**13** Parchedig R. W. Jones

**20** Bugail
oedfa gymun yn y bore

**27** Oedfa Menter Gobaith yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont, am 10 o'r gloch

Oedfa yn y Garn dan arweiniad y Parchedig John Roberts am 5 o'r gloch




Cymdeithas Chwiorydd y Garn gyda'r Gweinidog, y Parch Wyn Morris, ar ddiwedd tymor y Gymdeithas am eleni.




Wynne Melville Jones yn dadorchuddio'i lun newydd trawiadol yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, i gofio hanner can mlynedd ers boddi cwm Nant-y-moch. Cyfeiriodd at ei atgofion o fod yn bresennol yn y gwasanaeth olaf yn y capel bychan ar ddiwrnod eithriadol o wlyb ym mis Awst 1960. Roedd ymysg y cannoedd o bobl oedd yn y gynulleidfa, nifer helaeth ohonynt yn sefyll allan yn y glaw. A phrofiad dirdynnol, hanner canrif yn ddiweddararch, oedd gwylio'r datgorfforí fel rhan o'r ffilm *Cwm Tawelwch*, a gweld y peiriannau'n chwalu muriau'r hen gapel – a hen ffordd o fyw. Mae'r llun i'w weld yn y Llyfrgell Genedlaethol ac mae printiau ohono ar werth.



Bore Sul, 17 Mai, ar derfyn Wythnos Cymorth Cristnogol 2015, cynhaliwyd gwasanaeth unedig i aelodau capeli'r Garn a Noddfa yng Nghapel y Garn. Trwy gyfrwng emynau, darlleniadau, gweddïau, sleidiau a ffilmiau, cyflwynwyd neges arbennig ymgyrch eleni am wragedd Ethiopia. Rhannwyd taflenni gwaith i'r plant eu cwblhau a chafodd yr oedolion gyfle i ystyried eu cyfrifoldeb fel Cristnogion i ymateb i'r anghyfiawnder mae merched yn ei ddioddef yn y wlad honno.

Yn dilyn y gwasanaeth, roedd Cinio Bara a Chaws wedi'i baratoi gan Chwiorydd y Garn yn y festri, a derbyniwyd cyfraniadau tuag at Gymorth Cristnogol.







## *Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth*

Cynhaliwyd y cyfarfod i ddathlu Gŵyl Ddewi brynhawn Mawrth, 10 Mawrth, yng nghapel Rehoboth, Taliesin, ac estynnwyd croeso i'n gwesteion, sef Glyn a Lona Jones, Aberystwyth, a Margaret Rees, Llanilar. Cafwyd prynhawn hyfryd yn eu cwmni, gyda Glyn yn llywio'r cyfarfod ac adrodd ambell gerdd, a Lona fel unawdydd yn canu nifer o'r hen alawon Cymreig i gyfeiliant Margaret. Roedd pawb wedi mwynhau'r datganiadau'n fawr iawn, a diolchwyd yn gynnes i'r tri gan Eirlys Jones. Yna aeth pawb i'r festri i fwynhau te a chacennau hyfryd wedi eu paratoi gan Ann Jenkins ac Ann Jones.



Daeth y tymor i ben am eleni ar brynhawn Mawrth, 14 Ebrill, pan fwynhaodd 23 ohonom, a'n gwraig wadd, de prynhawn yng ngwesty'r Conrah, a hithau'n brynhawn heulog o wanwyn. Estynnodd Eiriona groeso i bawb, ac ar ôl inni fwynhau'r te bendigedig, cyflwynodd ein gwraig wadd, sef Beti Griffiths, Llanilar. Yn ei ffordd ddihafal arferol cyflwynodd Beti ddarluniau a hanesion diddorol am rai o'r capeli sy'n golygu llawer iddi, yn eu plith gapel Bethesda, Tynant, a Soar y Mynydd. Felly, gan ddiolch i Beti ac i staff gwesty'r Conrah, cafwyd prynhawn dymunol iawn yng nghwmni'n gilydd i gloi'r tymor.

## *Grŵp Help Llaw*



Mae'r Grŵp Help Llaw wedi bod wrth ei waith ers pymtheng mlynedd a mwy bellach, ond wrth edrych yn ôl ar ein blynyddoedd cynnar yn llenwi ugeiniau o focsys ar gyfer Operation Christmas Child, casglu llwythi o fwydydd i Bosnia, teganau meddal a dillad cynnes i Lithuania, gwau a chrosio blancedi lliwgar i Dŷ Cariad Affrica ac ati, mae pethau wedi newid yn ddirfawr. Erbyn hyn, rhaid i bob eitem fod yn newydd sbon ac mae'r gost o gludo'r nwyddau dramor yn enfawr! Er hynny, fe lwyddon ni, eleni, i anfon dau gyfraniad o ddillad babanod i ysbyty yn Uganda, mewn ymateb i apêl gan feddyg ifanc o'r Alban.

Mae'r pwyslais nawr, felly, ar gyfraniadau ariannol. Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar godi arian i'r elusen Water Aid i sicrhau cyflenwadau o ddŵr glân angenrheidiol i'r anghenus. Mae'r ysgol Sul yn cefnogi'r achos hefyd, trwy geisio llenwi llestr gwydr efo newid mân.

WaterAid

Yn ystod y flwyddyn cyfrannwyd hefyd at Tŷ Gobaith, hosbis plant yn y gogledd, ac yn nes adref, i'r fenter newydd, Hosbis yn y Cartref.

Sut y gallwch chi ein helpu? Dod â'ch newid mân i blant yr ysgol Sul, cyfrannu llyfrau i'r Stondin Lyfrau neu brynu llyfrau oddi arni, sbectolau i Vision Aid Overseas a stampiau i Oxfam.

Diolch am bob cyfraniad.

Shân Bethan

828268 611502

## *Newyddion Capel Seion*

**Sasiwn Genhadol Chwiorydd De Cymru**
Yn eglwys y Tabernacl, Aberteifi ar ddiwrod braf, heulog o Fai, sef dydd Iau, yr 21ain, cynhaliwyd Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De. Llywyddwyd oedfa'r prynhawn gan y Parch Llunos Gordon ac yn absenoldeb anorfod Zoe Jones, cafwyd anerchiad gan Steffan Morris, Coleg y Bala. Cyflwynwyd siec am gyfanswm casgliadau'r chwiorydd gan y trysorydd, Mrs Margaret Griffiths, i'r Parch Nan Powell Davies ac wrth ddiolch amdani, eglurodd yn fras sut y dosberthir yr arian rhwng y gwahanol fudiadau cenhadol, gartref a thramor. Cymerwyd rhan yn yr oedfa hefyd gan Margaret Reed, Blaenannerch, Gwenan Owen a'r Parch Wiliam Owen, Caerfarchell. Derbyniwyd croeso twymgalon gan chwiorydd yr Ofalaeth, a ddarparodd de i'r holl gynulleidfa, a braf fu cael y cyfle i gymdeithasu a sgwrsio.


Llywyddwyd oedfa'r hwyr gan Mrs Margaret Jones, Port Talbot, Llywydd y Sasiwn. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Menna Moras a Sarah Morris, Caerdydd, a'r Parch. Nicholas Bee. Cyflwynwyd cyfarchion Sasiwn y De gan y Llywydd, y Parch. Eifion Roberts. Testun anerchiad Ms Carol Hardy oedd 'Wrth fy ngwendid trugarha, Paid â'm gwrthod, Iesu da', a soniodd am brosiect Help Llaw, sy'n rhan o weithgaredd y Stafell Fyw yng Nghaerdydd.



Gwahoddwyd Sasiwn Chwiorydd 2016 i Henaduriaeth Myrddin yng Nghydweli gan Elizabeth Jackson. Trosglwyddwyd y llywyddiaeth gan Margaret Jones i Ina Tudno Williams, a ddiolchodd am yr anrhydedd a'r fraint o gael gweithredu fel Llywydd am y tair blynedd nesaf. Diolchodd i Margaret Jones, y cyn-lywydd, am ei harweiniad yn ystod y tair blynedd diwethaf ac am y cyfle i gydweithio â'r ysgrifenyddes newydd, sef Eleri Davies, Capel y Morfa. Diolch hefyd am gefnogaeth chwiorydd Penllwyn a Seion yn yr oedfa.

**Cyfrol newydd**

Cynhaliwyd cyfarfod i lansio'r bedwaredd gyfrol yng nghyfres nofelau ditectif y Dr Geraint Evans, Tal-y-bont, yn Aberystwyth nos Wener, 5 Mehefin. Enw'r gyfrol yw *Y Gelyn Cudd* a chafwyd darlleniadau ohoni gan Deian Creunant, a holwyd yr awdur am y gwaith gan Owain Schiavone. Ymysg y dyrfa luosog gwelwyd nifer o aelodau Seion yn bresennol a diolchwyd iddynt am eu cefnogaeth. Mwynhaodd pawb noson hwyliog a llawen dros ben. Pob dymuniad da i'r gwerthiant ac i'r dyfodol am nofelau eto i'n diddanu!








Yr awdur a rhai o aelodau Seion yn mwynhau eu hunain yn y lansiad

## *Pwyllgor Eglwys y Garn*

Mae bron dwy flynedd wedi mynd heibio ers sefydlu'r Pwyllgor Eglwys yn y Garn. Pwrpas y pwyllgor yw rhoi cyfle i aelodau fynegi eu sylwadau a'u barn ar faterion sy'n ymwneud ag ystyried a gweithredu ffyrdd o adfywio a chynnal bywyd yr eglwys yn ysbrydol ac yn gymdeithasol.

**Oedfaon a Chymanfa**

Braf oedd derbyn adroddiadau yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor, a gynhaliwyd ar 3 Mehefin, am yr oedfaon arbrofol a bendithiol a drefnwyd yn ddiweddar gan aelodau. Hefyd, cyfeiriwyd at Gymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion, cymanfa lwyddiannus a gynhaliwyd ym mis Mai dan lywyddiaeth ein Bugail, y Parch Wyn Morris, yn oedfa'r plant ac Alan Wynne Jones yn yr hwyr. Yn ei araith, heriodd Alan Wynne Jones ni i ystyried dyfodol y traddodiad cerddorol cyfoethog a geir yn y Garn ac eglwysi eraill y cylch: a oes dyfodol iddo, a sut y gellir ei gynnal? Gwerthfawrogwyd cyflwyniad plant yr Ysgol Sul Unedig yn fawr iawn a chyfraniadau eu hathrawon a'u hyfforddwyr. Bwriedir cefnogi oedfa Menter Gobaith a gynhelir ar Sul olaf Medi (27 Medi 2015) ym Methel, Tal-y-bont.

**Hwb i Achosion Da**

Ymfalchïwyd yng nghyfraniadau'r eglwys tuag at elusennau lleol a rhyngwladol, a hyfryd oedd cymdeithasu yn y Cinio Bara a Chaws a'r cyfle i gefnogi ymdrechion Cymorth Cristnogol. Mae'r gweithgor Eglwys a Chymdeithas, Pwyllgor y Chwiorydd a'r Grŵp Help Llaw yn flaengar iawn yn yr holl ymdrechion hyn. Yn ogystal â chefnogi Ymgrych Llywydd y Cyfundeb i gyfrannu tuag at Ysbyty Shilong a hefyd ymgyrch flynyddol Cymorth Cristnogol, penderfynwyd cefnogi Water Aid, Ambiwlans Awyr Cymru a'r hosbis newydd yn y cartref a sefydlwyd yng Ngheredigion yn ystod y flwyddyn.

**Gwerthu'r Gerlan**

Adroddwyd bod gwerthiant capel, festri a mans y Gerlan wedi'i gwblhau. Dosberthir yr hyn a dderbyniwyd rhwng y Cyfundeb yn ganolog, Capel Babell a Chapel y Garn. Noder bod y cyfran o'r arian a ddyrannwyd i'r eglwysi yn cael ei fuddsoddi mewn cyfrifon canolog gan y Cyfundeb, a rhaid fydd cyflwyno cais penodol am ddefnydd o'r arian, a hynny yn unig at bwrpas cynnal a chadw adeiladau'r eglwysi.

**Cyflwyno Technoleg Newydd**

Yn ystod y misoedd diwethaf gosodwyd offer sain newydd yn y Garn sydd wedi bod yn gafaeliad i'r addoli. Gwerthfawrogir nawdd Cronfa Eleri tuag at y gwaith a disgwylir penderfyniad parthed cais a wnaed i'r Cyfuneb am gyfraniad ariannol pellach. Mae grŵp nawr yn ymchwilio i'r posibilrwydd o osod offer gweledol er hyrwyddo addoliad a gweithgareddau'r eglwys fel ail ran i wireddu'r bwriad gwreiddiol i wella cyfleusterau cyfoes yn y Garn.

**Cynnal a Chadw**

Cytunwyd mai blaenoriaethau rhaglen waith ar gyfer adeiladau'r eglwys yn ystod y misoedd nesaf fydd gwaith atgyweirio toeon a phaentio Capel a Thŷ Capel y Garn a Bethlehem.

*Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, 29 Gorffennaf 2015, am 7 o'r gloch yn Festri'r Garn.*

*Dewi G. Hughes*
*(Ysgrifennydd)*

***Dyddiau Olaf Owain Glyndŵr (Gruffydd Aled Willliams)***

I gyd-fynd â chwechanmlwyddiant marw Owain Glyndŵr (mae tystiolaeth dda iddo farw ym Medi 2015), bydd cyfrol newydd ddadlennol yn cael ei chyhoeddi gan y Lolfa. Awdur y gyfrol yw'r Athro Gruffydd Aled Williams, a bydd yn rhannu ei waith ymchwil trylwyr am y traddodiadau a ddatblygodd ynghylch dyddiau olaf Glyndŵr, man ei farwolaeth a mannau posib ei gladdu (yn swydd Henffordd ac yng Nghymru).



*Yr awdur ger ogof Owain Glyndŵr yn Nhonfannau*

Bydd y gyfrol yn cael ei lansio yn Ystafell Seddon, yr Hen Goleg, Aberystwyth, am 7.30 o'r gloch ar ddiwrnod Owain Glyndŵr, sef 16 Medi, ac mae croeso cynnes i bawb i'r achlysur.

## *Merthyr Auschwitz*

Cynhelir Diwrnod Cofio'r Holocost yn flynyddol ar 27 Ionawr, ac eleni roeddem yn cofio am agor carchar dileu dieflig Auschwitz – Oswiecim, yn iaith gwlad Pwyl – 70 mlynedd yn ôl, ac achub gweddill y trueiniaid oedd ar fin marw. Cafwyd nifer o erthyglau a rhaglenni radio a theledu yn manylu ar hanes y miliynau a lofruddiwyd yno ac mewn gwersylloedd eraill, a da gweld a chlywed y rhai a waredwyd yn dweud eu stori. Ond ni chlywais neb yn cyfeirio at weithred hunanaberthol yr offeiriad Pabyddol o Urdd Sant Ffransis, Maksymilian Kolbe (1894–1941).

Un o arferion ffiaidd milwyr y Natsïaid pan fyddent wedi meddwi, neu pan fyddent am ddial am fod rhywun wedi ceisio dianc, oedd gorchymyn deg o garcharorion i sefyll a'u cefnau ar fur un o'r adeiladau a saethu bob yn ail berson. Ar 14 Awst 1941, roedd Maksymilian Kolbe mewn rhes o ddeg ac yn ei ymyl roedd Francisek Gajowniczek, gŵr priod a thad i nifer o blant, a ddechreuodd grio wedi sylweddoli y saethid ef. Gofynnodd yr offeiriad am gael cymryd lle ei gyfaill ac fe'i lladdwyd. Ond cyn hynny bu'n cysuro'i gyd-garcharorion mewn mawl a gweddi mewn byncar a weddnewidiwyd yn gysegr bychan o lawenydd ysbrydol.




Wrth feddwl am ddewrder Maksymilian mae emyn cyfarwydd Eleazar Roberts, Lerpwl (1825–1912) – rhif 721 yn *Caneuon Ffydd* – yn dod i'm meddwl: 'O na bawn yn fwy tebyg / i Iesu Grist yn byw', a'r llinellau yma yn arbennig: 'ei roi ei hun yn aberth / dros eraill wnaeth Efe'. Dylai cofio gweithred arwrol yr offeiriad i Grist fod yn gymorth inni ddeall a diolch am aberth rhyfeddol Iesu trosom, 'un prynhawn, ar fythgofiadwy fryn'.

Roedd y gŵr y bu Maksymilian farw yn ei le yn un o'r ychydig ffodus i ddod o Auswchwitz yn fyw, ac yn un o'r ddau lyfr sy'n adrodd ei hanes ceir llun o Francisek Gajowniczek a'i wraig, Helena, a dynnwyd ym 1981.

Mae’r ddwy gyfrol yn manylu ar hanes Maksymilian; canmolir ei ddewrder a'i ymrwymiad Cristnogol a roddodd iddo nerth cariad i wynebu’r rhai fu’n ei gam-drin, y cariad roedden nhw am geisio’i ddinistrio.

Ar17 Hydref 1971 yn y Fatican fe enwyd yr offeiriad yn Sant gan y Pab Paul VI, ac y mae llun Francisek yng nghwmni’r Pab, Archesgob Cracow a ddaeth yn Bab Ioan Paul II, a’r Cardinal Stefan Wyszynski, cyn-Archesgob dewr gwlad Pwyl.

Ar 10 Hydref 1982 fe’i canoneiddiwyd ar Sgwâr Sant Pedr gan Ioan Paul, a dyma ddywedodd am Maksymilian Kolbe pan ymwelodd ag Auschwitz, 7 Mehefin 1979: ‘Bu’i aberth drwy ffydd a chariad yn y lle hwn a adeiladwyd i ddileu ffydd – ffydd yn Nuw a ffydd mewn dyn – yn fuddugoliaeth dros oleuni mewn cyfnod o dywyllwch dudew.’ Os ewch i Gadeirlan Caer-gaint fe welwch faen coffa iddo yng Nghapel y Saint a'r Methyron yng nghwmni rhai tebyg iddo o’n cyfnod ni.

Union bedair blynedd ar hugain wedi llofruddio Maksymilian, oedais i a’r naw myfyriwr o Gymru oedd gyda mi ganol Awst 1965 mewn syndod yn y fan lle cafodd ei saethu, crwydro adeiladau’r amgueddfa sydd yno wedyn a gweld y siambrau nwy lle byddai mil ar y tro yn cael eu difa. Does ryfedd mai teitl y sgyrsiau a roddais ar ôl dychwelyd oedd ‘I uffern ac yn ôl’. Euthum i wlad Pwyl hanner canrif yn ôl yn gyd-arweinydd criw o aelodau Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr, yr SCM, a anfonwyd yno i godi pontydd rhwng pobol ar ôl chwalfa’r Ail Ryfel Byd. Daliaf i werthfawrogi’r profiadau a gefais yng nghwmni ieuenctid ac arweinwyr eglwysig mewn addoliad a seiadau.

Gan mai Offeiriad yn Urdd Sant Ffransis oedd Maksymilian Kolbe, mae’n addas cloi gyda rhan o weddi Ffransis o Assisi (1182–1226), a droswyd gan Siân Rhiannon – rhif 868 yn *Caneuon Ffydd*:

> Iôr, gwna fi’n offeryn dy hedd,
> lle bo casineb dof â’th gariad di,
> a lle bo dagrau gad im ddod â gwên,
> cyfannu’r holl raniadau boed i mi.

*W. J. Edwards*


***Y Rhyfel Byd Cyntaf yng Ngogledd Ceredigion:***
***Prosiect Cofio a Myfyrio***

Erbyn hyn, mae copïau o 302 o eitemau o'r arddangosfa, ynghyd ag ambell eitem hefyd nad oedd yn yr arddangosfa, i'w gweld ar wefan Casgliad y Werin (www.casgliadywerin.cymru).

Os defnyddiwch y geiriau 'Cofio a Myfyrio' yn y blwch 'Chwilio', fe ddaw'r cyfan i fyny. Gallwch weld hefyd faint o weithiau mae pobl wedi edrych ar wahanol eitemau unigol.

Diolch i William Howells am drefnu hyn, ac am ei holl lafur gyda'r arddangosfa.

***Cofio'r Rhyfel Mawr***
***WW1 Remembered***
***1914–1918***




Mae copïau o'r llyfryn dwyieithog yn rhoi cefndir arddangosfa'r Prosiect Cofio a Myfyrio, manylion y rhai a gollwyd, hanes gwersyll y Tiriogaethwyr ac yn y blaen, yn dal ar gael; pris £2 yr un.

Cysylltwch â Llinos Dafis (01970 828262) neu Marian B. Hughes (01970 828662)

***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Tegwyn Lewis, Madog
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; johnleeding@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **13 Medi**:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
☎01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
☎01970 828662
marian_hughes@btinternet.com